

Busnes Cymru | Business Wales

# TWRISTIAETH GYNALIADWY CYMRU

# PECYN ADNODDAU TEITHIO


**03000 6 03000**

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales

## PWYSIGRWYDD TEITHIO CYNALIADWY

Pa un a yw eich busnes yn wersyllfa, gwesty neu atyniad i ymwelwyr, bydd angen i'ch ymwelwyr eich cyrraedd chi rhywsut. Gyda dros hanner yr holl deithiau car â'r potensial i gael eu gwneud ar feic mewn llai nag 20 munud, mae'n bwysig hysbysu ac addysgu eich tîm a'ch ymwelwyr i annog teithio cynaliadwy. Ond sut allwch chi wneud hyn?



### SIARAD Â'CH TÎM

Bydd cyfleu syniadau newydd neu atebion cost-effeithiol i'ch tîm ar sut y gall eich busnes wella ei deithio, nid yn unig yn fuddiol ar gyfer creu syniadau newydd ond hefyd yn gwella perthynas y tîm.

Mae enwebu Hyrwyddwr Teithio Gwyrdd bob mis, rhoi gwobr i'r gweithiwr gyda'r ôl troed carbon isaf neu wahodd siaradwr gwadd teithio cynaliadwy i'r busnes yn nifer o ffyrdd o hybu cyffro o amgylch y maes.

### SIARAD Â'CH YMWELWYR

Mae hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy i'ch ymwelwyr yn ffordd wych i ennyn eu diddordeb. Gallech wneud hyn trwy:

- Hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus
- Tynnu sylw at eich pwyntiau gwefru cerbydau trydan
- Cyfeirio ymwelwyr at wefannau teithio cynaliadwy
- Cynnig cyfleuster storio beics
- Gofyn am adborth ar welliannau

# Ddim yn siŵr lle i ddechrau? Dyma ein pum prif awgrym i hyrwyddo ac annog teithio cynaliadwy yn eich busnes!

## 1 Tynnu sylw at lwybrau

Gydag amrywiol lwybrau cerdded hygyrch wedi'u lleoli ar hyd a lled Cymru, oni bai bod ymwelwyr yn gyfarwydd â'r ardal leol, efallai na fyddant yn sylweddoli pa mor agos ydyn nhw! Beth am roi gwybod i'ch gwesteion trwy e-bost neu arwydd defnyddiol yn eich derbynfa?

## 2 Ar eich Beic

Gyda llai na 2%* o'r holl deithiau'n cael eu gwneud ar feic, beth am annog eich ymwelwyr i feicio atoch chi os ydyn nhw'n byw'n agos! Gallech hefyd greu cyfleuster storio beics neu dynnu sylw at opsiynau llogi beics ac offer i'r rhai sydd ar eu gwyliau.

## 3 Cyfleusterau Gwefru

Er bod hwn yn opsiwn drud, os oes gennych arian ar gael, beth am edrych ar osod Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan yn eich maes parcio? Gall eich tîm a'ch cwsmeriaid ddefnyddio'r rhain.

## 4 Trên neu Fws?

A oes gennych chi opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus yn eich ardal? Beth am eu hyrwyddo nhw i'ch tîm a'ch ymwelwyr? Trwy hyrwyddo pa mor agos ydych chi at safle bws neu drên, gallai annog pobl i ymweld heb fod angen car.

## 5 Cymryd Rhan

Os ydych chi'n annog eich tîm a'ch ymwelwyr i wneud dewisiadau teithio cynaliadwy, chi ddylai fod yr un i gychwyn arni! A allwch chi feicio neu gerdded i'r gwaith? Beth am ddechrau cynllun rhannu car?

*The National Cycle Network (Saesneg yn unig)

## OPSIYNAU CYLLIDO

Mae nifer o fanciau'n cynnig cyllid busnes gwyrdd gyda gwahanol feini prawf cymhwyster a benthyciadau o wahanol faint. Mae ein cynghorwyr effeithiolrwydd adnoddau ar gael i drafod eich anghenion gyda chi. Dyma restr fer o le y gallwch gael cyllid:

- Banc Datblygu Cymru
- Banc Busnes Prydain
- Cronfa BBaCh Gwyrdd HSBC
- NatWest – Benthyciadau Gwyrdd
- Benthyciad Gwyrdd Barclays
- Benthyciad Busnes Cynaliadwy Virgin Money



## OPSIYNAU PRYNU

Dechreuwch yn fach trwy osod cyfleuster storio beics ar eich safle. Gallwch brynu'r rhain gan fanwerthwyr beicio ledled y DU, a gallai fod yn standiau sengl neu'n rhesel gyfan.

Siaradwch â'ch darparwr ynni am gost gosod pwynt gwefru cerbydau trydan. Nid oes rhaid i chi ei wneud yn syth, ond gallwch ddechrau cynllunio.

Gosodwch fap yn eich prif dderbynfa yn nodi lleoliad arosfannau bysiau, gorsafoedd trenau, atyniadau twristiaid a llwybrau cerdded. Unrhyw beth y gallwch ei wneud i annog teithio gwyrddach.

## ADNODDAU SYDD AR GAEL

www.visitwales.com/inspire-me/days-out/12-eco-friendly-places-visit (Saesneg Yn Unig)

www.roughguides.com/articles/responsible-travel-in-wales-practical-ways-to-travel-better (Saesneg Yn Unig)

www.teithiollesol.cymru

Newid i ddulliau teithio carbon isel - Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (Saesneg Yn Unig)

Adroddiad Galw yn y Farchnad Twristiaeth Croeso Cymru – DU Mehefin 2022

Cledrau Cymru / Wales on Rails

Y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol - Sustrans.org.uk (Saesneg Yn Unig)

Llywodraeth Cymru - Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol 2022 - 2027

Siarter Teithio Llesol i Fusnesau - Teithio Llesol Cymru

**Os hoffech chi gael rhagor o gymorth ar gyflwyno mesurau arbed teithio i'ch busnes, cysylltwch â'n tîm heddiw.**

**03000 6 03000**

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales